

WelTAG 2017 – Canllawiau Atodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth ddefnyddio WelTAG, mae'n hanfodol cydymffurfio â'r dyletswyddau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Eu diben yw dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ddilyn y pum ffordd o weithio, a phennu amcanion llesiant sy'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y saith nod llesiant.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae WelTAG yn sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy'r pum ffordd o weithio – a ddylai gael eu defnyddio yn ystod pob cam. Fframwaith ar gyfer meddwl yw WelTAG ac arweinir defnyddwyr i ystyried effeithiau tymor byr a hir yr opsiynau, yn ogystal ag opsiynau i atal problemau rhag mynd yn waeth na digwydd yn y lle cyntaf. Mae integreiddio yn rhan hanfodol o broses WelTAG er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn ystyried effaith y cynigion ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill, a hefyd sut y dylid ystyried agendâu polisi eraill. Mae cydweithio hefyd yn anhepgor i'r broses wrth sicrhau nad yw ymyriadau trafndiaeth yn cael eu datblygu ar wahân. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys yn y broses yn bwysig trwy gydol arfarniad WelTAG. Mae'n ofynnol i ddefnyddwyr gynnwys pobl a chanddynt ddiddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.

Nodau ac Amcanion Llesiant

Mae'r nodau a'r amcanion llesiant yn ffurfio rhan allweddol o'r achos strategol a'r achos trafndiaeth dros gynllun.

Wrth ddatblygu'r achos strategol, dylai'r nodau a'r amcanion llesiant lywio'r amcanion ar gyfer yr ymyriad. Dylai hyn gynnwys ystyried amcanion llesiant cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus perthnasol.

Yn ystod yr achos trafndiaeth, mae'n ofynnol i ddefnyddwyr asesu effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd pob opsiwn. Dylid integreiddio'r asesiadau effaith hyn (statudol ac anstatudol) i'r gwaith o ystyried cyfraniad pob opsiwn i'r nodau llesiant.

Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer meddwl am lesiant

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi llunio Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau – 'fframwaith ar gyfer meddwl' – i helpu cyrff i lawn weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dylid cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu a dylunio prosiectau seilwaith gan y bydd yn helpu sefydliadau i weithio trwy'r pum ffordd o weithio ac ystyried sut y gallant gyfrannu at y saith nod llesiant.

<https://futuregenerations.wales/cy/documents/mae-fframwaith-cenedlaethau-r-dyfodol/>